# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Hydref 2017

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 1 - 7)

**CLA(5)-23-17 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**2.1 SL(5)129 - Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2017**

**2.2 SL(5)133 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau) (Cymru) 2017**

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**2.3 SL(5)131 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017**

**2.4 SL(5)132 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017**

**2.5 SL(5)134 - Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017**

**2.6 SL(5)135 – Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017**

**2.7 SL(5)136 – Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)127 – Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017**

(Tudalennau 8 - 16)

**CLA(5)-23-17 – Papur 2** – Rheoliadau

**CLA(5)-23-17 – Papur 3** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-23-17 – Papur 4** – Adroddiad

## 4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE

<u>Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol</u>

**4.1 SL(5)126 – Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2017**

(Tudalennau 17 - 18)

**CLA(5)-23-17** – **Papur 5** – Adroddiad

## 5 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 19 - 21)

**CLA(5)-23-17 – Papur 6** – Llythyr oddi wrth y Llywydd - Bil yr UE (Ymadael), 2 Hydref 2017

**CLA(5)-23-17 - Papur 7** - Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Dethol Senedd yr Alban ar Weinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Bil yr UE (Ymadael)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 7 Papur i'w nodi

(Tudalennau 22 - 23)

**CLA(5)-23-17 - Papur 8** - Llythyr gan y Llywydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru

- Bil Ymadael â'r UE

## 8 Yr ymchwiliad ar Lais Cryfach i Gymru: Adroddiad drafft

(Tudalennau 24 - 68)

**CLA(5)-23-17 - Papur 9** - Hynt yr adroddiad drafft

**CLA(5)-23-17 - Papur 10** - Adroddiad drafft

## 9 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir Eitem 2

9 Hydref 2017

## SL(5)129 – Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae rheoliadau 3 i 15 yn diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010. Er enghraifft, mae rheoliadau 4, 5 a 6 yn diwygio gweithrediad ac aelodaeth Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio.

Mae rheoliadau 17 a 18 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005. Mae rheoliadau 17 a 18 yn darparu bod modd gwaredu apeliadau o dan y Rheoliadau hynny heb wrandawiad.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:** 25 Medi 2017

**Fe'u gosodwyd ar:** 27 Medi 2017

**Yn dod i rym ar:** 1 Rhagfyr 2017

## SL(5)133 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 39(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn darparu ym mha amgylchiadau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu pob awdurdod lleol pan wneir rhai penderfyniadau rheoleiddiol penodol mewn cysylltiad â chofrestru darparwr gwasanaeth.

Mae adran 39(1)(g) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi rhagor o amgylchiadau pan fydd y ddyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol yn gymwys.

Mae adran 39(2) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiadau o'r fath.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys ym mhob hysbysiad a wneir o dan adran 39(1). Mae rheoliad 4 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth. Mae rheoliad 5 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth trwy ddileu o'r cofrestriad wasanaeth rheoleiddiedig neu fan lle y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Mae rheoliad 6 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynglŷn â gwneud gorchymyn gan ynad heddwch o dan adran 23 o'r Ddeddf (canslo neu amrywio ar frys drwy ddileu gwasanaeth neu fan); Mae rheoliad 7 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch canslo dynodiad unigolyn cyfrifol o dan adran 22 o'r Ddeddf. Mae rheoliad 8 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch achosion sy'n cael eu dwyn yn erbyn person mewn cysylltiad â throsedd o dan Ran 1 o'r Ddeddf neu reoliadau a wneir oddi tani. Mae rheoliad 9 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch hysbysiad cosb a roddir o dan adran 52 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 10 yn nodi'r pethau eraill a ragnodir at ddibenion adran 39(1)(g) o'r Ddeddf. Gwneir darpariaeth ynghylch apeliadau a wneir gan ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r pethau a nodir yn adran 39(1)(a) i (d) a chanlyniad unrhyw apêl. Gwneir darpariaeth hefyd ynghylch canlyniad achosion sy'n cael eu dwyn gan Weinidogion Cymru am droseddau o dan Ran 1 o'r Ddeddf (neu a ragnodir mewn rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf).

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar**: 27 Medi 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 3 Hydref 2017

**Yn dod i rym ar**: 2 Ebrill 2018

# SL(5)131 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

## Gweithdrefn: Gadarnhaol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 6 ac 11 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Mae adran 6(1) o'r Ddeddf yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae adran 6(1)(d) o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gwybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cais i gofrestru. Mae rheoliadau 3 a 4 yn pennu'r wybodaeth ychwanegol sydd i'w darparu gan ymgeisydd mewn cais i gofrestru.

Mae Adran 6(2) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r cais i gofrestru fod ar y ffurf a ragnodir. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf cais.

Gan ddefnyddio pwerau o dan adran 11 o'r Ddeddf, mae rheoliadau 6 i 9 yn pennu'r wybodaeth sydd i'w darparu mewn cais i amrywio cofrestriad.

Mae rheoliadau 10 ac 11 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen mewn cysylltiad â chais i amrywio cofrestriad. Mae rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf cais i amrywio.

Mae adran 11(2) o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ragnodi, mewn rheoliadau, derfyn amser ar gyfer cyflwyno cais i amrywio cofrestriad darparwr o dan amgylchiadau pan na fo unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â man y mae’r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Mae rheoliad 13 yn rhagnodi mai 28 diwrnod yw'r terfyn amser hwnnw.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Fe’u gwnaed ar**: heb ei nodi

**Fe’u gosodwyd ar**: heb ei nodi

**Yn dod i rym ar**: 1 Chwefror 2018

# SL(5)132 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017

## Gweithdrefn: Gadarnhaol

Mae adran 10(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru.  Mae adran 10(2) o'r Ddeddf yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys yn y datganiad blynyddol.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 10(2)(a)(vii), (viii) a (ix), (3) a (4) o'r Ddeddf, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth am hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu a gwybodaeth arall y mae'n rhaid ei chynnwys yn y datganiad blynyddol, i ragnodi ffurf y datganiad blynyddol ac i ragnodi'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion staff o ran hyfforddiant.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff.

Mae rheoliadau 5 a 6 a'r Atodlen yn ymdrin â gwybodaeth arall am y gwasanaeth a ddarperir ym mhob lleoliad, y mae'n rhaid ei chynnwys yn y datganiad blynyddol, gan gynnwys gwybodaeth am staffio ac am ddarpariaeth gwasanaethau a'r wybodaeth benodol sy'n ofynnol pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol gynnwys datganiad o wirionedd gan y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol. Bydd hwn yn darparu tystiolaeth o'r sawl sy'n gyfrifol am wneud datganiad yn y datganiad blynyddol os bydd erlyniad am drosedd o dan adran 47 o'r Ddeddf (datganiadau anwir).

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar:** heb ei nodi

**Fe'u gosodwyd ar:** heb ei nodi

**Yn dod i rym ar:** 1 Tachwedd 2017

# SL(5)134 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017

## Gweithdrefn: Gadarnhaol

Cafodd Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") ei gadw mewn bodolaeth gan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae adran 4 o Ddeddf 2014 yn nodi prif swyddogaethau'r Cyngor. Mae adran 5 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn yn rhoi rhagor o swyddogaethau i'r Cyngor neu yn gosod rhagor o swyddogaethau arno.

Roedd Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017") yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor, ym maes achredu cyrsiau neu raglenni astudio hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol a thynnu achrediad o'r fath yn ôl ("Swyddogaeth Achredu").

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2017 er mwyn rhoi swyddogaeth arall i'r Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo roi sylw i ragolygon Gweinidogion Cymru o'r galw am athrawon newydd gymhwyso wrth arfer ei Swyddogaeth Achredu (erthygl 2).

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Addysg (Cymru) 2014

**Fe'i gwnaed ar:** heb ei nodi

**Fe'i gosodwyd ar:** heb ei nodi

**Yn dod i rym ar:** 1 Tachwedd 2017

## SL(5)135 – Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017

### Gweithdrefn: Gadarnhaol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ychwanegol at ddiwygiadau a wnaed yn Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Plant 1989 trwy ddatgymhwyso adran 25C(2) o ran Cymru.

Mae rheoliad 3 yn diwygio adran 2(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 trwy hepgor y cyfeiriad at "section 6 of the Local Authority Social Services Act 1970" a rhoi yn ei le "section 144 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014".

Cyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 "orchymyn trefniadau plant", gan ddisodli gorchmynion preswylio a chyswllt. Mae rheoliad 4 yn diwygio Deddf 2014 trwy ddisodli cyfeiriadau yn adrannau 76 ac 81 at "orchymyn preswylio" â "gorchymyn trefniadau plentyn" i adlewyrchu'r newid hwn.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:** heb ei nodi

**Fe'u gosodwyd ar:** heb ei nodi

**Yn dod i rym ar:** 1 Rhagfyr 2017

## SL(5)136 – Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Gadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol at ddiben Rhan 1 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ("y Ddeddf"). Mae Rhan 1 yn sefydlu'r Bwrdd Ystadegau sy'n gyfrifol am hyrwyddo a diogelu arferion da wrth gasglu ac asesu ystadegau swyddogol. Diffinnir "ystadegau swyddogol" yn adran 6(1) o'r Ddeddf ac mae'n cynnwys, yn is-adran (1)(b)(iii), ystadegau fel y'u pennir trwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 6(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff gorchymyn a wneir o dan is-adran (1)(b) bennu disgrifiad o'r ystadegau a gynhyrchir neu'r person sy'n eu cynhyrchu.

Nid yw ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan bobl a restrir yn yr Atodlen yn cynnwys ystadegau a gynhyrchir gan y Bwrdd Ystadegau, adrannau'r llywodraeth, gweinyddiaethau datganoledig nac unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran y Goron.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007

**Fe'i gwnaed ar**: heb ei nodi

**Fe'i gosodwyd ar**: heb ei nodi

**Yn dod i rym ar**: Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Eitem 3.1

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2017 Rhif 939 (Cy. 232)**

**LLESIANT, CYMRU**

# Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu bod rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, wrth lunio asesiad llesiant o dan adran 37 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roi sylw i'r adolygiad diweddaraf o ansawdd aer ar gyfer ei ardal awdurdod lleol a gyflawnwyd o dan adran 82 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a'r mapiau sŵn strategol diweddaraf a luniwyd o dan Ran 2 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 939 (Cy. 232)

# LLESIANT, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Medi 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *25 Medi 2017* |
| *Yn dod i rym* | *24 Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pŵer a roddir gan adran 38(3)(i) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Hydref 2017.

### Asesiadau llesiant lleol

**2.** Wrth lunio asesiad o dan adran 37(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â'r materion a ddisgrifir yn adran 38(3) o'r Ddeddf honno, roi sylw i'r materion a restrir yn yr Atodlen.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
19 Medi 2017

(**1**) 2015 dccc 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

## Materion i roi sylw iddynt wrth lunio asesiad o dan adran 37(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**1.** Yr adolygiad diweddaraf o ansawdd aer ar gyfer yr ardal awdurdod lleol a gyflawnwyd o dan adran 82 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**).

**2.** Y mapiau sŵn strategol diweddaraf a luniwyd o dan Ran 2 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006(**2**) ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru.

(**1**) 1995 p. 25.
(**2**) O.S. 2006/2629 (Cy. 225).

**Explanatory Memorandum to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Assessments of Local Well-being) Regulations 2017**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the People and Environment Division of the Welsh Government and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Cabinet Secretary's Declaration**

In my view this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Assessments of Local Well-being) Regulations 2017.

Lesley Griffiths
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs
25 September 2017

## 1. Description

1.1 The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Assessments of Local Well-being) Regulations 2017 ("the 2017 Regulations") require Public Services Boards ("PSBs"), when preparing an assessment of local well-being under section 37 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 ("the WFG Act"), to take into account the most recent review of air quality for their local authority area carried out under section 82 of the Environment Act 1995 ("the 1995 Act") and the most recent strategic noise maps made under Chapter 2 of the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006 ("the 2006 Regulations") and adopted by the Welsh Ministers.

## 2. Matters of Special Interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

2.1 None.

## 3. Legislative Background

3.1 The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 38(3)(i) of the WFG Act.

3.2 Under Chapter 2 of Part 4 of the WFG Act, each PSB must improve the economic, social, environmental and cultural well-being of its area by contributing to the achievement of the well-being goals. It must do this by assessing the state of economic, social, environmental and cultural well-being in its area; by setting objectives designed to maximise the PSB's contribution within its area to achieving the well-being goals; and by members of the PSB taking all reasonable steps in exercising their functions to meet those objectives.

3.3 Section 38(3) of the WFG Act lists statutory reviews and assessments PSBs must take into account in preparing its assessment of local well-being. This list includes, at 38(3)(i), "such other review or assessment in relation to the local authority area as may be prescribed by the Welsh Ministers in regulations (or such other analysis as may be designated in such regulations as a review or assessment for the purposes of this section)".

3.4 The 2017 Regulations are subject to the negative resolution procedure as prescribed in section 54(5) of the WFG Act.

## 4. Purpose and Intended Effect of the 2017 Regulations

4.1 Air pollution is estimated to reduce the average life expectancy of each person living in the UK by several months. In Wales, over a thousand deaths and over 10,000 lost life-years are attributed annually to both nitrogen dioxide and particulate matter, and the financial cost of air pollution in the UK has been estimated at around £20 billion per year[1]. In Wales, Local Authorities have declared more than 40 air quality management areas to date, one for particulate matter, the rest associated with nitrogen dioxide from road traffic.

4.2 Section 82 of the 1995 Act requires every Local Authority to review, from time to time, the present and likely future air quality within its area. In practice, and in line with statutory guidance[2] issued by the Welsh Ministers under section 88 of the 1995 Act, this review takes the form of an annual progress report submitted in draft to the Welsh Government by 30 September each year and, once finalised, published on the Local Authority's website. The Welsh Government encourages regional working and the joint submission of annual progress reports covering more than one Local Authority.

4.3 Noise emitted by sources of air pollution affects people primarily through sleep disturbance and annoyance, but also through an increased risk of hypertension-related health conditions and impacts on productivity and learning, with a cost to the UK valued conservatively at around £10 billion per year[3]. According to the national noise maps produced in 2012, the homes of more than 200,000 people in Wales are exposed to levels of road traffic noise exceeding World Health Organisation (WHO) night noise guidelines.

4.4 Part 2 of the 2006 Regulations requires the Welsh Ministers and airport operators to produce strategic noise maps for major roads, major railways, major airports and agglomerations in Wales. Part 8 of the 2006 Regulations requires these maps to be published. The maps must be reviewed and, if necessary, revised whenever a major development occurs affecting the existing noise situation, or at least every five years. There are currently no airports in Wales requiring strategic noise maps under the 2006 Regulations. The latest noise maps for major roads, major railways and environmental noise sources in agglomerations may be viewed on-line and downloaded at http://lle.gov.wales/map/airbornepollution. Following a review carried out in 2015, new noise maps for major roads across Wales and industry in agglomerations are due to be published on this website by the end of 2017.

4.5 Public exposure to air and noise pollution is an important determinant of social and environmental well-being. However, consideration of air quality and noise evidence in the first round of draft assessments of local well-being was found to be inconsistent across Wales. The purpose and intended effect of these Regulations is to ensure it is given due consideration by all PSBs in future rounds.

---

[1] https://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/every-breath-we-take-lifelong-impact-air-pollution
[2] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/airqualitypollution/airquality/guidance/policy-guidance
[3] https://www.gov.uk/noise-pollution-economic-analysis

4.6 Ensuring assessments of air and noise pollution are taken into account in each assessment of local well-being supports existing Welsh Government policy on local air quality and noise management, as well as contributing to the breaking down of policy silos by considering issues relating to air and noise pollution alongside other aspects of well-being such as sustainable transport and improving public health generally.

## 5. Regulatory Impact Assessment

5.1 No impact assessment has been produced in relation to these Regulations as no impact on the private, voluntary or public sectors is foreseen.

## 6. Consultation

6.1 The Welsh Government ran a 12-week public consultation on local air quality and noise management from 13 September 2016 to 6 December 2016[4]. One of the proposals put forward in the consultation was as follows:

*The Welsh Government proposes to add, through regulations, Local Authorities' annual progress reports on air quality and national noise maps to the list in section 38(3) of the WFG Act of things to be taken into account by PSBs when preparing assessments of local well-being.*

6.2 The responses received in relation to this proposal were all favourable. In publishing its summary of the consultation in March 2017, the Welsh Government stated it would therefore "add the reviews and assessments of air quality required under section 82 of the Environment Act 1995 and the strategic noise maps required under Part 2 of the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006 to the list in section 38(3) of the WFG Act of things to be taken into account by PSBs when preparing assessments of local well-being."

## 7. Competition Analysis

7.1 These Regulations will not affect business, charities and/or the voluntary sector in ways which raise issues relating to competition.

## 8. Post-implementation Review

8.1 The second round of draft assessments of local-well-being is due in 2022. Welsh Government officials will evaluate the assessments submitted by PSBs and advise Ministers on the need for any further intervention.

[4] https://consultations.gov.wales/consultations/air-quality-and-noise-management-wales

# SL(5)127 - Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Asesiadau Llesiant Lleol) 2017

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r **Rheoliadau** hyn yn darparu bod rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, wrth lunio asesiad llesiant o dan adran 37 o **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,** roi sylw i'r adolygiad diweddaraf o ansawdd aer ar gyfer ei ardal awdurdod lleol a gyflawnwyd o dan adran 82 o **Ddeddf yr Amgylchedd 1995** a'r mapiau sŵn strategol diweddaraf a luniwyd o dan Ran 2 o **Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006** ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru.

## Y weithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

- Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, wrth lunio asesiadau llesiant, roi sylw i'r map sŵn strategol diweddaraf a luniwyd o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru.
- Mae'r amserlen a nodir yn y ddeddfwriaeth yn darparu y dylai'r map diweddaraf fod wedi cael ei fabwysiadu gan Weinidogion Cymru erbyn diwedd mis Mehefin 2017. Fodd bynnag, mae'r linc a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y map "diweddaraf" yn cysylltu â map o 2012.
- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod mapiau sŵn newydd i fod i gael eu cyhoeddi ar-lein erbyn diwedd 2017. Ond, fel y nodwyd uchod, dylai'r mapiau diweddaraf fod wedi cael eu mabwysiadu erbyn diwedd mis Mehefin 2017.

## Y Goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol, a Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 sy'n trosi'r Gyfarwyddeb i gyfraith Cymru, ill dau yn ei gwneud yn ofynnol i fapiau sŵn strategol sy'n "dangos y sefyllfa yn y flwyddyn galendr flaenorol" gael eu gwneud a'u mabwysiadu erbyn 30 Mehefin 2017. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r mapiau sŵn strategol gael eu cyhoeddi. Nid ydynt yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid eu cyhoeddi. Mae'r Gyfarwyddeb, fodd bynnag, yn ei gwneud yn ofynnol adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar y mapiau sŵn strategol o fewn chwe mis i'r dyddiad a bennir ar gyfer eu

gwneud a'u mabwysiadu, hynny yw erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017. Fel a nodwyd yn y memorandwm esboniadol, nod Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi'r mapiau sŵn diwygiedig ar gyfer Cymru ar wefan Lle erbyn yr un dyddiad.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r mapiau strategol ddangos y sefyllfa yn y flwyddyn galendr flaenorol, hynny yw yn 2016. Adolygodd Llywodraeth Cymru y mapiau sŵn strategol a wnaed yn 2012 (sy'n dangos y sefyllfa yn 2011) a daeth i'r casgliad nad oedd y mapiau ar gyfer prif ffyrdd ac ar gyfer diwydiant mewn crynodrefi yn gynrychioliadol mwyach ac, o ganlyniad, y byddai angen eu hail-wneud yn 2017. Nid yw data llif traffig yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer blwyddyn benodol ar gael i'w defnyddio mewn cyfrifiadau sŵn hyd oddeutu mis Mehefin yn y flwyddyn ganlynol, neu'n fuan cyn hynny. Pe bai mapiau sŵn strategol yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2017, byddai'n rhaid iddynt ddibynnu ar ddata llif traffig ar gyfer y flwyddyn 2015, felly ni fyddent yn adlewyrchu'r flwyddyn galendr flaenorol mewn gwirionedd. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cyfiawnhad dros ohirio cyhoeddi'r mapiau sŵn newydd hyd ychydig cyn y terfyn amser ar gyfer adrodd a bennir yn y Gyfarwyddeb, sef mis Rhagfyr, gan fod hynny'n golygu y gall y mapiau a gyhoeddir, ac yr adroddir arnynt, gael eu cyfrifo ar sail y data llif traffig ar gyfer 2016, a hefyd ystyried newidiadau mwy diweddar i gynlluniau ffyrdd a'r boblogaeth breswyl nag a fyddai'n bosibl pe bai'r broses mapio sŵn wedi dod i ben ym mis Mehefin. O ganlyniad, bydd yr ardaloedd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu ynghylch sŵn a gaiff eu pennu yn niwygiad 2018 i'r cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru yn seiliedig ar ddata llif traffig o 2016 yn hytrach na 2015, ynghyd â chynlluniau ffyrdd ac ystadegau poblogaeth breswyl mwy cyfredol na'r hyn a fyddai ar gael fel arall.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**29 Medi 2017**

# SL(5)126 – Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2017

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015 (OS 2015/1867 (Cy. 274)) ("Rheoliadau 2015").

Mae'r diwygiadau yn-

(a) gweithredu'r gofynion monitro diwygiedig ar gyfer dŵr ffynnon a dŵr wedi'i botelu y darperir ar eu cyfer gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1787. Mae'r diwygiadau yn dileu'r gofyniad i awdurdodau bwyd ymgymryd â monitro ar gyfer gwirio ac archwilio dŵr ffynnon a dŵr yfed wedi'i botelu (*rheoliadau 8 a 14*);

(b) darparu y caniateir i ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon sydd wedi cael triniaeth tynnu fflworid neu driniaeth aer a gyfoethogir ag osôn mewn gwlad nad yw'n Wladwriaeth AEE gael eu gwerthu yng Nghymru. Dim ond os yw'r triniaethau hynny wedi cael eu hawdurdodi gan yr awdurdod cyfrifol yn y wlad honno nad yw'n Wladwriaeth AEE, a bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu'r awdurdod cyfrifol mewn rhan arall o'r DU neu'r AEE wedi penderfynu bod y weithdrefn ar gyfer awdurdodi'r driniaeth yn y Wladwriaeth honno yn cyfateb i'r gofynion o dan Erthyglau 1 i 3 o Reoliad (EU) 115/2010 y caniateir gwerthu dŵr o'r fath (*rheoliadau 3, 9 a 10*);

(c) egluro y caniateir i ddŵr mwynol naturiol na dŵr ffynnon sydd wedi eu hechdynnu y tu allan i Gymru gael eu gwerthu yng Nghymru os ydynt yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau 2015 mewn perthynas â datblygu (yn achos dŵr mwynol naturiol), triniaethau ac ychwanegiadau, a gofynion potelu a labelu (*rheoliadau 4 a 7*);

(d) egluro nad yw'r rheolau ar driniaethau ac ychwanegiadau yn atal dŵr ffynnon rhag cael ei ddefnyddio wrth weithgynhyrchu diodydd ysgafn (*rheoliad 5*);

(e) gwahardd hysbysebu dŵr ffynnon mewn ffordd a allai beri dryswch rhwng y dŵr a dŵr mwynol naturiol, a gwahardd defnyddio "mineral water", "dŵr mwynol", neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny mewn unrhyw iaith arall, wrth hysbysebu dŵr ffynnon (*rheoliad 6*);

(f) cywiro dau wall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau 2015 (*rheoliadau 11 a 12 (b)*);

(g) cywiro amrywiol wallau eraill yn Rheoliadau 2015 (*rheoliadau 12(a) a 13*); ac

(h) egluro bod cyfnod yr esemptiad o'r monitro ar gyfer sylweddau ymbelydrol penodol yn para am 5 mlynedd (*rheoliad 15*).

## Y weithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y Goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o "ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE" o dan gymal 2 o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd, felly bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu cadw fel cyfraith ddomestig a byddant yn parhau i fod mewn grym yng Nghymru ar ôl y diwrnod gadael.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu'r Rheoliadau hyn er mwyn ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadael, yn amodol ar rai cyfyngiadau (er enghraifft, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pŵer hwn i wneud rhywbeth sy'n anghyson ag addasiadau i "ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir" a wnaed gan Weinidogion y DU o dan y Bil).

Ni fydd y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (na Chynulliad Cenedlaethol Cymru) addasu unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir. Rhoddir pŵer i addasu holl ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir i Weinidogion y DU; mae hyn yn cynnwys y pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir mewn meysydd datganoledig heb yr angen am ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Weinidogion Cymru.

Felly, os bydd Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn defnyddio eu pwerau i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir, bydd pŵer Gweinidogion Cymru i addasu'r Rheoliadau hyn yn gyfyngedig fel na all Gweinidogion Cymru wneud dim sy'n anghyson â'r addasiad a wneir gan Weinidogion y DU.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**3 Hydref 2017**

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Hydref 2017

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr ynglŷn ag ystyriaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth o Fil yr UE (Ymadael). Fel y gwyddoch, mae cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol hefyd wedi ysgrifennu ataf yn yr un modd.

Cyflwynais y ddau lythyr i sylw'r Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 26 Medi. Cytunodd y pwyllgor yn unfrydol â'ch honiad chi y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn gyfrifol am benderfynu ar y weithdrefn sydd i'w chymhwyso i wneud is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru o dan y Bil, a byddai'n gefnogol i unrhyw symudiadau i ddiwygio'r Bil yn unol â hynny.

Nododd y Rheolwyr Busnes hefyd farn cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei bod yn bosibl y bydd angen i'r Cynulliad ystyried rhai newidiadau gweinyddol a gweithdrefnol i sicrhau craffu priodol ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n llifo, yn y pen draw, o'r pwerau a gynigir yn y Bil. Croesawodd y Rheolwyr Busnes y bwriad i ystyried y mater hwn yn fanylach, ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich casgliadau ac argymhellion maes o law. Cred y Pwyllgor, wrth benderfynu ar y weithdrefn briodol, y bydd yn bwysig ystyried ymarferoldebau a chynhwysedd y Cynulliad, o ystyried y gyfran ddisgwyliedig o is-ddeddfwriaeth sy'n llifo o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), a sicrhau, ar yr un pryd, y gellir cynnal archwiliad priodol.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi ar y materion hyn dros y cyfnod i ddod.

Yn gywir



Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Public Administration and Constitutional Affairs
Select Committee (PACAC)
Tel 020 7219 3284 Fax 020 7219 2681 Email pacac@parliament.uk
House of Commons, London, SW1A 0AA www.parliament.uk/pacac

21st September 2017

Huw Irranca-Davis AM
Chair
Constitutional and Legal Affairs Committee
National Assembly for Wales

Dear Huw

**European Union (Withdrawal) Bill**

I am writing in response to your letter to David Davis of 31 July setting out your Committee's initial response to the European Union (Withdrawal) Bill. Thank you for copying me your letter, and I apologise for the delay in responding.

As you are no doubt aware the Public Administration and Constitutional Affairs Committee (PACAC) considered the implications of the result of the EU referendum for inter-governmental relations in its report *The Future of the Union, part two: Inter-institutional relations in the UK* during the last Parliament. It launched a specific inquiry into 'Brexit and Devolution' in March this year, however this was closed owing to the General Election. The terms of reference are available on the Committee's website and reflected many of the issues identified in your letter.

I would therefore welcome the opportunity to discuss the questions raised by the European Union (Withdrawal) Bill for devolution and inter-governmental relations, and how our two committees may co-operate on this and other issues with you in the near future. If that would be of interest to you please ask your office to liaise with my mine to fix a discussion.

Yours ever
Bernard

Bernard Jenkin
Chair
Public Administration and Constitutional Affairs Committee

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon